


Teithiau Hanner Dydd a Mwy



Cwm Gwaun

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Hyd: 5.2 milltir (8.4 km)

Cludiant cyhoeddus: Dim.

Cyfeirnod map: SN045349

*Taith wych ar hyd yr afon
gyda siawns o weld digon o
rywogaethau*

Chwiliwch am: Coetir lled-naturiol
hynafol o dan reolaeth.

Mae'r afon Gwaun yn codi ym Mynyddoedd y Preseli ac fe'i ffurfiwyd fel sianel dŵr tawdd ar gyfer y rhewlifoedd a oedd yn encilio ar ddiwedd Oes yr Iâ. Mae isafonydd wedi cerfio dyffrynnoedd serth ag ochrau cul sy'n drwch o goed. Yn yr Haf, mae'r Gwaun yn nant sy'n troelli'n araf trwy ffen gwern (coetir gwlyb, corsiog gyda choed gwern yn dominyddu), dolydd dŵr (chwiliwch am yr erwain gyda'i arogl hyfryd fel mêl yn hwyr ym mis Awst/gynnar ym mis Medi) a gorlifdir.

Ar y llwybr uwchben Coed Sychpant ceir golygfeydd dros y dyffryn ac mae'r coed yn gynefin i adar fel pibydd y coed, y tingoch, y titw, cnocell y coed a'r gwybedog brith. Mae'r afon yn gartref i drochwyr ac i'r sigl-i-gwt. Mae adar ysglyfaethus fel y bwncath a'r cudyll coch hefyd yn gyffredin. Os fyddwch chi'n ffodus, fe welwch chi ddyfrgwn wrth ymyl yr afon hefyd, ac mae'r ardal yn gadarnle ar gyfer y ffwlbart a'r pathew.

Mae Carol Owen, Parcmon Sector y Gogledd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: "Dyma daith ragorol os ydych chi'n hoffi gwyllo adar. Yn aml, fe welwch chi drochwyr yn pigo i mewn

ac allan o'r dŵr sy'n llifo'n gyflym wrth iddyn nhw chwilio am fwyd."

Cymeriad: Coetir, caeau a da byw, codiadau serth ar lethrau'r cwm.

